Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Maldwyn Davies (Llansannan) a Megan Thomas (Cefn Berain) a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Eleri, a hynny mor fuan ar ôl iddynt golli eu brawd, Eurwyn. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu galar a'u tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt.

Cofiwn am y cleifion hefyd. Mae sawl un o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd a gweddïwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn gofalu amdanynt yn eu hangen. Cofiwn yn arbennig am Nesta Evans (Saron), Eifion Howatson (Llannefydd) ac Eirian Roberts (Llannefydd) sydd wedi cael llawdriniaeth yn ystod yr wythnos. Cofiwn hefyd am Doreen Evans (Llansannan) a Meurig Owen (Cefn Meiriadog) sy'n parhau i gael gofal yn yr ysbyty ar hyn o bryd ond sy'n mawr obeithio cael dod adref yn y dyddiau nesaf. Mae Merfyn Hughes (Llansannan) erbyn hyn wedi cael ei symud i Ysbyty Clatterbridge i dderbyn gofal pellach. Mae'n dda cael adrodd fod Awel Elgan (Groes), a dreuliodd rai dyddiau ar Ward y Plant yn Ysbyty Glan Clwyd ddechrau'r wythnos, bellach wedi gwella ac wedi cael dod adref o'r ysbyty, fel ag y mae Peter Jones (Groes) ar ôl cyfnod o rai wythnosau yn yr ysbyty. Parhawn i gofio yn ein gweddïau hefyd am Elwyn Tudor (Henllan) ac eraill o'n plith sydd wedi, neu sydd yn derbyn triniaethau amrywiol ar hyn o bryd. Cyflwynwn y cleifion oll a'u hanwyliaid i ofal Duw, gan weddïo eu bod yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.

Llongyfarchiadau mawr i Gwion Lloyd Evans (Llansannan) ar ddod yn Bencampwr Byd wedi iddo ennill y gystadleuaeth cneifio gyda pheiriant ym Mhencampwriaeth Cneifio a Thrafod Gwlân y Byd yng Ngŵyl y Golden Shears yng Nghaeredin y penwythnos diwethaf. Arbennig iawn yn wir!

Cyrsiau Coleg y Bala

Dyma'r cyrsiau sydd wedi eu trefnu yng Ngholeg y Bala dros y ddeufis nesaf:

- CWRS Ieuenctid (i flynyddoedd uwchradd 7-10): Gorffennaf 31ain -– Awst 4ydd
- Anhrefn Awst (i blant 8-11 oed): Awst 14eg-–17eg
- Souled Out (i ieuenctid 15+, myfyrwyr ac oedolion): Awst 19eg-–24ain

Medrwch archebu lle ar y wefan: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg. Os nad yw'n bosibl i chi archebu arlein neu os oes gennych unrhyw gwestiwn, plîs cysylltwch â colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565 iddyn nhw bostio copi o'r ffurflen gofrestru i chi. (Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu ac sy'n byw o fewn dalgylch yr Ofalaeth hon.)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2 Gorffennaf 2023

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Llwyddiant

Rydym wedi arfer â chanu clodydd y rhai sydd wedi llwyddo mewn gwahanol feysydd cyhoeddus, boed yn eisteddfod neu chwaraeon neu ym myd addysg, a da o beth yw gwerthfawrogi a chydlawenhau yn llwyddiant pobl eraill. Ond gadewch i ni ystyried am funud un a dderbyniodd y ganmoliaeth uchaf y gellir ei chael ac yntau yn ymddangos fel pe na bai wedi cyflawni dim byd.

Fe gofiwch i'r Arglwydd Iesu Grist ddod at Ioan Fedyddiwr i gael ei fedyddio yn afon yr Iorddonen. Bryd hynny y bu i Dduw gyhoeddi amdano "Ti yw fy mab, yr Anwylyd; ynot ti yr wyf yn ymhyfrydu" Luc 3:22.

Ond beth oedd Iesu wedi'i wneud i dderbyn y fath ganmoliaeth gan Dduw? Nid oedd hyd yma wedi cyflawni'r un wyrth. Nid oedd wedi pregethu yr un bregeth. Nid oedd wedi iacháu yr un gwahanglwyf. Nid oedd wedi galw rhai i fod yn ddisgyblion. Prin fod neb y tu allan i Nasareth yn ei adnabod. Roedd wedi byw yn dawel yn Nasareth am dri deg mlynedd. Gwyddom yn ystod y cyfnod hwnnw fod gan Dduw ei lygaid arno a gwyddom iddo "gynyddu mewn doethineb a maintioli, a ffafr gyda Duw a'r holl bobl." Luc 2:52.

Gwelwn felly mai'r hyn sy'n digwydd yn y dirgel sy'n cyfri gyda Duw. Yn nhawelwch Nasareth treuliodd Iesu amser gyda'i Dad nefol. Ei berthynas â'i Dad nefol oedd yn mowldio ei fywyd. Hyn sy'n cyfri i'r Arglwydd heddiw hefyd, sef yr hyn sydd yn ein calon. Cofiwn mai "Yr hyn sydd yn y golwg a wêl meidrolyn, ond y mae'r Arglwydd yn gweld beth sydd yn y galon" 1 Samuel 16:7. Mae'n chwilio am bobl sydd â'u calon yn eiddo iddo fo. Ydyn ni wedi llwyddo i roi ein calon iddo?

Yn nhawelwch gwlad Bro Aled, fel yn Nasareth, mae cyfle i feithrin perthynas â Duw y nefoedd. Gallwn dyfu mewn adnabyddiaeth o Dduw yn Iesu Grist.

Wrth i ni wynebu cyfnod newydd gadewch i ni sicrhau ein bod yn gwneud amser i dyfu yn ein hadnabydiaeth o Dduw trwy ddarllen ei Air yn y Beibl, trwy weddïo a chyd addoli. Yna gall yr Arglwydd wneud defnydd ohonom.

Y Parch. R. O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Gorffennaf 2il

- **Bore Bro Aled – Llawenydd yng Nghrist** – Oedfa i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yn Llansannan **am 10.30 y bore o dan arweiniad Huw ac Eryl a chyfle i wrando ar ddarllediad o dystiolaeth Ifan Gruffydd (Tregaron).** Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu, a bydd cyfle i'r plant fwynhau y maes antur sydd yno. *(Os na fydd y tywydd yn ffafriol, gallwn fwynhau ein picnic yn y Festri.)*

Dydd Llun, Gorffennaf 3ydd

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM** am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Y tro hwn, 'Y Canghennau' fydd y testun. *(Manylion mewngofnodi: https://us02web.zoom.us/j/82697406470?pwd=aThkKohEUlFKTXFoMU8zL0ozV1FDZz09 neu cysylltwch â Mair os byddwch am ymuno dros y ffôn. Meeting ID: 826 9740 6470, Passcode: 901953).* Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Dydd Mawrth, Gorffennaf 4ydd

- Bydd criw 'Paned a Sgwrs' (Llansannan) yn mynd am ginio i Gaffi Cariad, San Cyndeyrn, Llanelwy ac yn cyfarfod ym maes parcio Capel Coffa Henry Rees am 11:45. Cysylltwch â Hafwen (870292) os am fwy o wybodaeth.

Dydd Gwener, Gorffennaf 7fed

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00. Bydd Cheryl Williams, Llanrhaeadr yn dod draw i rannu gwybodaeth am Ffrindiau Dementia. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Gorffennaf 9fed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan ac Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 2:00.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson.
- **Pererindod Capel Saron** i ardal Corris. Os oes unrhyw un arall am ymuno, cysylltwch ag Emyr Rees erbyn dydd Mercher (5ed), os gwelwch yn dda.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn.

Dydd Mawrth, Gorffennaf 11eg

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 15fed

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Clwyd Street, Y Rhyl. Bydd eisteddiad o'r Henaduriaeth ac ymddiddan â'r blaenoriaid newydd **am 3:00 y prynhawn**, ac yna oedfa gyhoeddus **am 6:00 yr hwyr** pryd y bydd blaenoriaid yn cael eu llongyfarch am hir wasanaeth a'r blaenoriaid newydd yn cael eu hordeinio. *(Sylwch ar amser y cyfarfodydd, os gwelwch yn dda.)* Cawn ninnau gyfle i longyfarch yn y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled.

Dydd Sul, Gorffennaf 16eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Robert O. Roberts. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa i'r Daith (Llannefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes)** yng Nghefn Berain am 10:30 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis. Ni fydd oedfa yn Nantglyn heddiw.
- **Oedfa'r Fro yng Nghefn Meiriadog** am 6:00 yr hwyr. *(Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.)*

Pwyllgor Bugeiliol

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Bugeiliol yn cael ei gynnal **nos Lun, Gorffennaf 17eg** *(mwy o fanylion i ddilyn).* Erfyniwn ar bob un ohonoch i barhau i weddïo'n daer am arweiniad Duw ar gyfer y Fro, os gwelwch yn dda.

GOLUD – Sesiwn Codi Ymwybyddiaeth am Ddementia

Mae rhaglen GOLUD Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cynnig sesiwn awr o hyd i godi ymwybyddiaeth am ddementia yn ein plith fel eglwysi. Menter gan Gymdeithas Alzheimer yw hon sy'n rhoi cyfle i bobl ddeall am ddementia a dysgu am y pethau bychain y medrir eu gwneud i greu gwahaniaeth. Oherwydd y gall dementia gyffwrdd bywydau pob un ohonom mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, byddai'n dda i ni i gyd gadw'r dyddiad yn rhydd ar gyfer y sesiwn gwerthfawr hwn fydd yn cael ei gynnal ym Mro Aled ar **nos Fawrth, Medi 12fed am 7:30 yr hwyr.**

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (12fed), os gwelwch yn dda.